# TAG UWCH

1020U60-1

S19-1020U60-1

# CYMRAEG: AIL IAITH – U2 uned 6
## DEFNYDDIO IAITH A'R STORI FER
## (Papur Ysgrifenedig)

DYDD LLUN, 10 MEHEFIN 2019 – PRYNHAWN
*MONDAY, 10 JUNE 2019 – AFTERNOON*

2 awr
*2 hours*

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

***ADDITIONAL MATERIALS***

*A WJEC pink 16-page answer booklet.*

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.
Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A ac Adran B.
Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir ar wahân.
Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

***INSTRUCTIONS TO CANDIDATES***

*Use black ink or black ball-point pen.*
*Answer **all** questions in Section A and Section B.*
*Write your answers in the separate answer booklet provided.*
*The marking will take into account the quality of written communication used in your answers.*

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.
Cofiwch mai papur synoptig yw hwn ac felly bydd yn profi eich dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng gwahanol elfennau o'r pwnc.
**Ni** chaniateir defnyddio copïau o'r straeon byrion na geiriaduron yn yr arholiad hwn.

***INFORMATION FOR CANDIDATES***

*The number of marks allocated for each question or part-question is given in brackets.*
*You are reminded that this paper is synoptic and so will test understanding of the connections between the different elements of the subject.*
*Copies of the short stories and dictionaries are **not** permitted.*

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN A

### Defnyddio Iaith

**1.** (i) Rydych chi wedi derbyn y llythyr isod gan gwmni teithio lleol yn dweud eich bod wedi ennill gwyliau i **ddau** o amgylch y byd.
Ysgrifennwch BLOG yn disgrifio sut rydych chi'n teimlo am ennill y gwyliau. Rhowch fanylion y gwyliau a dywedwch pam rydych chi'n edrych ymlaen.
(tua 150 o eiriau) [20]

Cwmni Teithio Byd Eang
Heol y Castell
Trefelin
Mehefin 2019

Annwyl Enillydd

Llongyfarchiadau! Mae'n bleser gennyn ni ysgrifennu atoch chi i ddweud mai eich tocyn chi sydd wedi ennill Raffl Fawr y Nadolig eleni a'ch bod wedi ennill gwyliau i **ddau** o amgylch y byd.

Byddwch yn hedfan o faes awyr Heathrow, Llundain ar 25ain o Hydref 2019 ac yn ymweld â'r gwledydd canlynol:
- Seland Newydd
- Gwlad Thai
- De Affrica
- Unol Daleithiau America

Mae holl gostau'r daith yn rhan o'r wobr ond hefyd mae £1,000 i chi wario. Gallwch chi aros am bythefnos ym mhob gwlad felly bydd rhaid i chi ddewis ble hoffech chi fynd ym mhob gwlad.

Ysgrifennwch e-bost aton ni, os gwelwch yn dda. Yna byddwn yn anfon rhagor o fanylion atoch chi.

Yn gywir

*S Molloy*

Cyfarwyddwr Cwmni Teithio Byd Eang

Wrth ysgrifennu'r blog dylech chi:

- ddisgrifio'r wobr a dweud sut enilloch chi (ble brynoch chi eich tocyn, pris y tocyn, sawl tocyn brynoch chi ayb)
- dweud sut rydych chi'n teimlo am ennill y trip
- cynnwys manylion y daith
- dweud pwy fydd y person lwcus sy'n dod gyda chi
- dweud beth rydych chi'n gobeithio'i weld a'i wneud ym mhob gwlad
- esbonio pa wlad rydych chi'n edrych ymlaen i ymweld â hi fwyaf a pham
- disgrifio sut byddwch chi'n paratoi at y daith.

(ii) Mae chwaer eich ffrind, sy'n 12 oed, wedi cael dau ddarn o waith cartref gan yr athro Cymraeg. Mae hi wedi gofyn i chi am help. [10]

***Tasg 1***

Yn ***Tasg 1*** mae'n rhaid i chi newid y darn o'r **trydydd** person i'r person **cyntaf**.

| |
|---|
| Roedd hi'n dri o'r gloch y bore. [1]**Roedd e'n gwybod ei fod e**'n hwyr ond o leiaf [2]**roedd e wedi** cyrraedd. [3]**Gwthiodd** y drws i'w agor a cherdded i mewn.<br><br>Roedd y lle yn dywyll fel y fagddu a [4]**doedd e ddim yn** gallu gweld unrhywbeth. Roedd pobman yn ddistaw hefyd a [5]**gallai** glywed [6]**ei galon yn curo'n ei frest**.<br><br>Yn sydyn, daeth sŵn fel sŵn taran trwy'r tŷ. Na, nid sŵn taran ond sŵn Morgan yn chwyrnu'n braf yn ei gwsg. |

***Tasg 2***

Yn ***Tasg 2*** mae'n rhaid i chi ysgrifennu ffurf gywir y ferf sy mewn cromfachau.

| |
|---|
| Ces i nodyn gan rieni Siân ddoe. [7](**Roedd**) nhw'n cwyno am bris crysau T Sioe'r Gaeaf. [8](**Gofyn**) i iddyn nhw ddod i drafod y mater gyda fi y bore 'ma. [9](**Gwrthod**) y fam dalu'r pris llawn ond roedd y tad yn fwy rhesymol. [10](**Cael**) i siec am ugain punt ganddo, sef y tâl llawn am ddau grys. Mae e hefyd wedi cynnig hysbysebu'r sioe ar ei raglen radio bore yfory. |

## ADRAN B

Stori Fer

**2.** (i) Yn y darn isod o'r stori fer 'Beth os?' gan Llio Mai Hughes, mae Ceri'n dechrau poeni am y ffaith fod pethau rhyngddi hi a Marc yn dechrau symud o fod yn sgwrs ddiniwed i fod yn sgwrs ar lefel dipyn mwy personol.
Yn eich barn chi, pa un o'r ddau gymeriad sy'n cymryd y risg mwyaf a pham?
(Tua **100** o eiriau) [15]

Gallech gyfeirio at:

- peryglon cychwyn perthynas dros y we
- ansicrwydd y sefyllfa
- y risg o gael eu brifo
- y peryglon a'r cyffro o gymryd risg
- rhamant y sefyllfa
- y syniad o fod â 'dim i'w golli'
- y siom pan maen nhw'n cyfarfod am y tro cyntaf.

(ii) Yn y darn isod mae'r awdur yn defnyddio:
**ffurf negyddol berfau ac ymadroddion negyddol**
**cwestiynau rhethregol**
**brawddegau hir**
Rhowch enghreifftiau o'r technegau hyn gan ddweud ym mha ffordd maen nhw'n ychwanegu at lwyddiant yr awdur i gyfleu'r **ansicrwydd mae Ceri'n ei deimlo**.
(Tua **100** o eiriau) [15]

(iii) Un o themâu'r darn isod yw **perthynas pan mae pobl yn cael eu siomi a'u brifo wrth i berthynas ddod i ben**. Manylwch ar hyn trwy gyfeirio at unrhyw lenyddiaeth a ddarllenwyd neu lunyddiaeth a wyliwyd gennych sy'n ymdrin â'r un thema **a'u cysylltu gyda'r darn isod**.
(Cwestiwn synoptig – tua **300** o eiriau) [40]

> Oedd o newydd ei gwahodd hi i Awstralia a gofyn a oedd hi'n sengl?!
> ...
> Roedd hi wedi gwastraffu pum mlynedd efo Gareth – pump o flynyddoedd gorau ei hugeiniau, a doedd hi ddim isio cael ei brifo eto. Roedd y rhan synhwyrol ohoni'n dweud wrthi am adael i bethau fod. Doedd hi prin yn adnabod Marc, doedd hi'm yn debygol o'i gyfarfod o, gan ei fod o'n byw mor bell a byth yn dod i Gymru, a doedd ganddi mo'r syniad lleiaf sut roedd o'n edrych! Ond roedd rhyw ran arall ohoni, y rhamantydd ynddi efallai, yn ysu am gael anfon neges yn ôl. Beth petai hyn yn rhan o ffawd, yn fwy na chyd-ddigwyddiad, a'i bod hi i fod i gwrdd â'r Marc 'ma? Pwyllodd am eiliad a rhoi ei llaw ar ei thalcen. Roedd hi wastad yn gwneud hyn. Yn gorfeddwl ac yn gadael i'w dychymyg fynd â hi ar gyfeiliorn. Ond wedyn, doedd ganddi ddim byd i'w golli, nag oedd?

**DIWEDD Y PAPUR**